

# Ein Strategaeth 2022

Rydym yn sefydliad dielw arloesol sy'n darparu tai a gwasanaethau i bobl yn Ne Cymru. Rydym yn cyflogi bron i 400 o bobl ac mae ein Grŵp yn cynnwys ein gwasanaeth atgyweirio a chynnal a chadw Celtic Horizons; gwneuthurwr cartrefi ffrâm bren Celtic Offsite a Harmoni Homes Ltd, sy'n adeiladu cartrefi fforddiadwy a chartrefi ar werth.

Ar hyn o bryd rydym yn rheoli ychydig dros 6,000 o eiddo ar draws 11 awdurdod lleol ac yn y pum mlynedd diwethaf rydym wedi adeiladu mwy na 1,000 o gartrefi. Rydym yn darparu amrywiaeth o lety gan gynnwys Gofal Ychwanegol a thai â chymorth ac rydym wedi ymrwymo i weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol, byrddau iechyd ac eraill i ddarparu prosiectau arbenigol sy'n helpu pobl gyda'u llesiant ac yn annog byw'n annibynnol yn y gymuned.

Rydym yn gweithio gyda'n gilydd mewn ysbryd o ymddiriedaeth a dilysrwydd, yn hyderus i gymryd risgiau pwyllog, gan alluogi diwylliant blaengar sy'n ein cefnogi i gofleidio syniadau newydd a chyflawni ein blaenoriaethau. Mewn amgylchedd sydd wedi'i siapio gan brofiad COVID-19, rydym yn gwrandao ar ein cwsmeriaid ac yn adlewyrchu eu hanghenion wrth i ni lunio ein gwasanaethau.

Rydym yn angerddol am wneud gwahaniaeth, cadw pobl yn ddiogel, croesawu amrywiaeth a herio anghydraddoldeb, gweithio'n effeithlon ac effeithiol, a helpu pawb i wneud y gorau o'u cryfderau. Rydym yn uchelgeisiol ynghylch sut y gallwn helpu pobl i fyw eu bywydau gorau, gan roi dewis i bobl, chwarae ein rhan i roi diwedd ar ddigartrefedd, trechu tlodi a darparu cartrefi diogel ochr yn ochr â chymorth a chyfleoedd i'r cymunedau yr ydym yn falch o weithio ynddynt. Rydym yn buddsoddi i gyflawni carbon sero net ac i wneud y defnydd gorau o dechnoleg er budd ein busnes a'n cwsmeriaid, heb wyro oddi wrth flaenoriaethu'r rhai sydd angen ein cymorth.

Rydym yn **adeiladu** cartrefi, yn **creu** cymunedau ac yn **trawsnewid** bywydau.

# Beth rydym yn mynd i'w wneud yn y pum mlynedd nesaf

1. Erbyn 2026, bydd 5,000 o denantiaid yn defnyddio TED, yr Ap Tenant.



2. Erbyn 2027 darparu o leiaf 1,300 o gartrefi newydd gydag eiddo a gyflenwir yn uniongyrchol wedi'u hadeiladu i lefelau uchel o effeithlonrwydd ynni, gyda 15% ohonynt yn defnyddio egwyddorion Passivhaus.



3. Erbyn 2026 trydaneiddio ein holl gerbydau fflyd.



4. Erbyn 2024, bydd Celtic Offsite yn gwneud gwarged ac felly'n cael ei alluogi i wneud cyfraniad cadarnhaol at ein rhaglen ôl-osod optimaidd.



## Sut y byddwn yn gwneud hynny

Byddwn yn teilwra gwasanaethau gan ddefnyddio mewnwelediad cwsmeriaid gan ymgysylltu a gwranddo ar denantiaid a'i gwneud yn haws i bobl gysylltu â ni gan ddefnyddio llwyfannau digidol. Byddwn yn darparu gwerth drwy arloesi a herio'n barhaus sut rydym yn darparu gwasanaethau.



Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid cymdeithasol a masnachol i greu cyfleoedd ar gyfer swyddi cyflogedig a di-dâl a rhaglenni hyfforddi.



Byddwn yn buddsoddi yn ein hasedau tai i sicrhau eu bod i gyd yn ddiogel, yn effeithlon o ran ynni, yn addas ar gyfer y dyfodol ac yn fforddiadwy i ni a thenantiaid, ac yn darparu cartrefi newydd o safon sy'n cynnwys technolegau carbon isel.



Byddwn yn creu amgylchedd lle mae pobl mewn cymunedau yn teimlo'n ddiogel, yn atebol ac yn hyderus i ofyn am gymorth i ymdrin ag effeithiau diwygio lles. Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau o'r un anian i gryfhau cymunedau drwy wella iechyd a lles.



Byddwn yn gweithio gyda'n gilydd yn effeithlon, gan wella llesiant, gwydnwch a boddhad swydd a bydd ein technoleg a'n systemau yn ein galluogi i arloesi a chroesawu ffordd fodern o weithio.



Bydd ein cyllid yn cael ei reoli'n dda gan gynnal ein cryfder ariannol a'n cadernid, gan sicrhau bod y gwasanaethau a ddarparwn yn cyflawni eu targedau, tra'n cynnal rhenti a thaliadau gwasanaeth ar lefelau fforddiadwy.

